# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 27 Ionawr 2026
## Tabled on 27 January 2026

# Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)
# Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill

**Carolyn Thomas** **32**

Schedule 1, page 39, after line 25, insert—

‘( ) If a report indicates that the OEGW considers that the Welsh Ministers did not provide it with sufficient sums to carry out its functions in the financial year to which the report relates, the OEGW must submit the report to the Welsh Ministers.’.

Atodlen 1, tudalen 39, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

‘( ) Os yw adroddiad yn nodi bod SLlAC yn ystyried na wnaeth Gweinidogion Cymru ddarparu symiau digonol iddi i gyflawni ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi, rhaid i SLlAC gyflwyno’r adroddiad i Weinidogion Cymru.’.

*This amendment provides that if the OEGW’s annual report indicates that it considers the sums allocated to it have been insufficient to enable it to perform its functions, the OEGW is required to send the report to the Welsh Ministers.*

*Mae’r gwelliant hwn yn darparu, os yw adroddiad blynyddol SLlAC yn nodi ei bod yn ystyried nad oedd y symiau a ddyrannwyd iddi yn ddigonol iddi i gyflawni ei swyddogaethau, fod rhaid i SLlAC anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru.*

**Janet Finch-Saunders** **33**

Schedule 1, page 30, after line 24, insert—

‘(4) Before making regulations under sub-paragraph (3) the Welsh Ministers must consult—

(a) a committee of Senedd Cymru for the time being with remit for environmental protection,

(b) the OEGW, and

(c) such other persons as they consider appropriate.’.

Atodlen 1, tudalen 30, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

‘(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) pwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith,

(b) SLlAC, ac

(c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

***Joyce Watson** **34**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Delyth Jewell**

Schedule 2, page 41, after line 20, insert—

‘the Committee on Climate Change (within the meaning given by section 32 of the Climate Change Act 2008 (c. 27)),’.

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

‘y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 32 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (p. 27)), a’.

*This amendment requires the OEGW to set out in its strategy how it will exercise its functions in a way that avoids overlap with the functions of the UK Committee on Climate Change.*

*Mae’r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy’n osgoi gorgyffwrdd â swyddogaethau’r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn y DU.*